***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 Rhif 1332 (Cy. 125)

# CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

## Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) (Diwygio) 2015

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *20 Mai 2015* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *22 Mai 2015* |
| *Yn dod i rym - -* | *22 Mehefin 2015* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 20, 20A, 21 a 93 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990(**1**) ac sy'n arferadwy bellach ganddynt hwy(**2**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

### Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) (Diwygio) 2015.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "y prif Reoliadau" ("*the principal Regulations*") yw Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) 2012(**3**).

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(4) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 22 Mehefin 2015.

### Diwygio'r prif Reoliadau

**2.**—(1) Mae'r prif Reoliadau wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 12(1)—

(a) ar ddiwedd is-baragraff (a)(ii), hepgorer "neu";

(b) hepgorer is-baragraff (b); ac

(**1**) 1990 p. 9. Mewnosodwyd adran 20(5) gan O.S. 2014/2773. Mewnosodwyd adran 20A gan adran 50(2) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 ("Deddf 2004"). Mae adran 50(2) wedi ei chychwyn o ran Cymru gan O.S. 2015/340. Mewnosodwyd adran 93(6A) gan adran 118 o Ddeddf 2004 a pharagraffau 19 a 26 o Atodlen 6 iddi. I gael ystyr "prescribed" gweler adran 91(1).

(**2**) Trosglwyddwyd y swyddogaethau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 20, 20A, 21 a 93, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hynny yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru.

(**3**) O.S. 2012/793 (Cy. 108).

(c) ar ôl y geiriau "o fewn chwe mis i'r hysbysiad o benderfyniad", hepgorer "neu ar ôl i'r cyfnod priodol a ganiateir o dan reoliad 3(5) ddod i ben, yn ôl y digwydd,".

(3) Yn rheoliad 12(2), yn lle'r geiriau "Rhaid i berson o'r fath hefyd" rhodder "Rhaid i geisydd sy'n dymuno apelio yn erbyn penderfyniad awdurdod cynllunio lleol a grybwyllir yn is-baragraff (1) neu yn dilyn methiant awdurdod cynllunio lleol i roi hysbysiad o'i benderfyniad neu hysbysiad o gyfeirio'r cais i Weinidogion Cymru".

(4) Ar ôl rheoliad 12 mewnosoder—

"**Apêl wedi ei wneud: swyddogaethau'r awdurdod cynllunio lleol**

**12A.** Y cyfnod ychwanegol a ragnodir at ddibenion adran 20A o'r Ddeddf yw pedair wythnos."

**Darpariaethau trosiannol**

**3.** Nid yw'r diwygiadau a wneir i'r prif Reoliadau gan reoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn gymwys i unrhyw apêl sy'n ymwneud â chais a wneir cyn y daw'r Rheoliadau hyn i rym ac yn unol â hynny, mae'r prif Reoliadau, ar y ffurf yr oeddent yn bodoli yn union cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym, yn parhau i fod yn gymwys i'r apelau hynny.

*Carl Sargeant*
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, un o Weinidogion Cymru

20 Mai 2015

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) 2012 ("y prif Reoliadau").

Mae rheoliad 2(2) a (3) yn diwygio rheoliad 12 o'r prif Reoliadau drwy ddileu'r terfyn amser o chwe mis ar gyfer cyflwyno apêl yn dilyn methiant gan yr awdurdod cynllunio lleol i benderfynu cais am ganiatâd adeilad rhestredig o fewn y cyfnod penderfynu a ragnodir yn rheoliad 3(5) o'r prif Reoliadau.

Mae rheoliad 2(4) yn mewnosod darpariaeth yn y prif Reoliadau sy'n rhagnodi cyfnod ychwanegol o bedair wythnos at ddibenion adran 20A o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990.

Mae rheoliad 3 yn gwneud darpariaethau trosiannol.

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n gymwys i'r Rheoliadau hyn ar gael gan Lywodraeth Cymru yn: Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ ac ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.llyw.cymru.